Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Dysgu –

Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 10 Hydref 2025, 16:00

Cynnwys

Gwneud cais	**Tudalennau 3-5**
Atodiad A: Cyd-destun a swyddogaethau Dysgu	**Tudalennau 6-7**
Atodiad B: Rôl y Cadeirydd	**Tudalennau 8-11**
Atodiad C: Y broses ddethol	**12**

Gwneud Cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Cadeirydd i Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru (Dysgu).

Ffeithiau allweddol am y rôl

Lleoliad:	Cymru Gyfan
Ymrwymiad amser:	Disgwylir ichi ymrwymo i gyfartaledd o dri diwrnod y mis
Hyd y swydd:	Penodiad cychwynnol o bedair blynedd
Tâl:	Bydd y Cadeirydd yn cael tâl o £256 y diwrnod. Bydd gan Dysgu gynllun i ad-dalu costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill yr eir iddynt wrth gyflawni'r rôl. Ni thelir cyfraniad pensiwn. Ni fydd y Cadeirydd yn cael ei gyflogi gan Dysgu na chan Weinidogion Cymru ac, felly, ni fydd ganddo hawliau 'cyflogai' o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Dysgu a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru.

https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-3429277df081/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein.

https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-4ac5797242e0/candidate/register

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Eich dewis chi yw sut i gyflwyno'r wybodaeth. Serch

hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, a'ch rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol.

Bydd o fantais i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i bob maen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau	10/10/2025
Llunio rhestr fer	w/d 20/10/2025
Cyfweliadau	w/d 17/11/ 2025

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymdeithas, ac rydym am benodi o'r gronfa o dalent ehangach a mwyaf amrywiol posibl.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd,

sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai ‘hanfodol’.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, dyma'r manylion cyswllt

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â

Chris Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr – yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion

Ffôn: 03000258753

E-bost: Christopher.Warner001@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o help arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i https://www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Cyd-destun a swyddogaethau Dysgu

Mae Llywodraeth Cymru yn dod ag ystod o swyddogaethau presennol ynghyd i greu corff hyd braich, Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru (Dysgu), a fydd yn weithredol o haf 2025. Bydd Dysgu yn arwain y gwaith o ddarparu dysgu proffesiynol, sy'n gyson yn genedlaethol, i gefnogi ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, athrawon, uwch arweinwyr a phenaethiaid mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ar hyd eu llwybrau gyrfa. Bydd yn darparu cymorth cenedlaethol, gan gynnwys arweiniad a chyfarwyddyd, i gynghorwyr gwella ysgolion a gweithwyr ieuenctid. Bydd y rhaglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a llesiant, ochr yn ochr â rhaglenni newid hirdymor gan gynnwys y Gymraeg fel pwnc ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion statudol fel y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a phroses sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso. Bydd Dysgu yn cyflawni newid sylweddol i'r trefniadau o ran comisiynu, cynllunio a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol, ymholiadau a chymorth arwain ar lefel genedlaethol, gan ymateb i adborth gan arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion drwy'r adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru, a'r cyfeiriad i'r dyfodol.

Bydd Dysgu yn chwarae rôl allweddol o ran darparu cefnogaeth i bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu'r gweithlu, y gwaith parhaus i wireddu'r cwricwlwm a'r diwygiadau ADY, a'r rhaglen barhaus sy'n cefnogi ymholi ac addysgeg ar draws y system ysgol. Yn hanfodol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth arwain ar draws y sector addysg fydd creu cydberthnasau effeithiol ar lefel strategol a gweithredol. Bydd angen i Dysgu ddatblygu a sefydlu perthynas â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Estyn, Adnodd, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a bydd angen iddo gyflawni yn y rhyngwyneb hwn, gan gael effaith glir ar ansawdd yr addysgu, ochr yn ochr â chydlyniant a gwerth am arian. I sicrhau bod Dysgu yn ymateb i anghenion y gweithlu, bydd hi hefyd yn hanfodol ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon, cynorthwywyr addysgu, arweinwyr, cynghorwyr gwella ysgolion ac undebau.

Mewn partneriaeth â Dysgu, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu capasiti yn y meysydd canlynol i gefnogi blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet:

- sefydlu'r Tîm Gwella Addysg, a fydd ag arbenigwyr drwy secondiadau o ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi deialog reolaidd gydag awdurdodau lleol a chymunedau gwella lleol, a
- datblygu rhaglenni cymorth cenedlaethol a fydd yn cael eu cyd-gynllunio gyda Dysgu a'u trosglwyddo i Dysgu i'w cyflawni.

Bydd Dysgu ar flaen y gad yn y newidiadau sylweddol i gymorth cenedlaethol Llywodraeth Cymru i wella ysgolion, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Gwella Addysg, awdurdodau lleol ac ymarferwyr i ddatblygu a darparu neu gomisiynu cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn ymateb i anghenion a ddaw i'r amlwg yn y sector a meysydd blaenoriaeth Gweinidogion.

Dysgu - Cadeirydd

Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd gan Dysgu ystod eang o gyfrifoldebau sy'n cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a phartneriaethau awdurdodau lleol. Ymhlith eraill, bydd y rhain yn cynnwys:

- gwireddu dull strategol o ddarparu dysgu proffesiynol a chymorth mewn ystod o feysydd yn unol â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol;
- rheoli gweithredu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol statudol ar gyfer Prifathrawiaeth, a'r rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer y rhai sy'n paratoi at y cymhwyster hwn ac sydd wedi'i gyflawni i ysbrydoli ein cenhedlaeth nesaf o arweinwyr ysgolion;
- datblygu a chynnal storfa genedlaethol o adnoddau a chyfleoedd arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol dwyieithog o ansawdd uchel ar blatfform Hwb;
- darparu prosiectau a rhaglenni sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymchwil ac ymholi ymarferwyr mewn cydweithrediad â'n prifysgolion;
- rheoli'r gwaith o ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu ymarferwyr fel hyfforddwyr neu fentoriaid;
- datblygu a darparu dysgu proffesiynol ar gyfer cynghorwyr gwella ysgolion mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, a
- darparu canllawiau a chymorth cenedlaethol sy'n gyson ac yn glir ar gyfer gwella arferion addysgu ac addysgeg yn unol ag uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru, ymchwil ryngwladol a safonau proffesiynol

Bydd gweithio gyda phrifysgolion i barhau i gynnig y Radd Meistr Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) a'r Ddoethuriaeth Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) hefyd yn un o gyfrifoldebau Dysgu, ynghyd â datblygu cysylltiadau â MEDR – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Atodiad B

Rôl y Cadeirydd – Disgrifiad o'r Swydd a Manyleb y Person

Penodir Cadeirydd Bwrdd Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru (y Bwrdd) gan Weinidogion Cymru. Mae'n gyfrifol am arwain y Bwrdd a gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Dysgu a monitro'r gwaith o gyflawni strategaeth, cynlluniau a pherfformiad ac amcanion busnes y corff. Er bod gan y Bwrdd y cyfrifoldeb hwn ar lefel strategol, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb mewn perthynas â rheoli gweithredol Dysgu o ddydd i ddydd.

Bydd Dysgu'n allweddol i yrru cynnydd ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ym maes addysg, sef gwella llythrennedd, rhifedd, llesiant a chynhwysiant, a bydd rôl y Cadeirydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Dysgu'n parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn.

Bydd prif gyfrifoldebau'r Cadeirydd yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:

- Darparu gweledigaeth ac arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd i sicrhau bod y Bwrdd yn gorff effeithiol o ran datblygu strategaeth a chynlluniau busnes corfforaethol y creffir yn ofalus arnynt ac a gaiff eu monitro
- Meithrin perthynas waith effeithiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.
- Cadeirio cyfarfodydd a chefnogi'r Bwrdd, gan sicrhau y deuir ag arbenigedd i mewn pan fo hynny'n briodol
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn cael eu sefydlu a'u gweithredu yn unol ag arferion gorau a gofynion corff cyhoeddus, yn unol a chyfraith cwmnïau
- Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod Dysgu yn hyrwyddo amrywiaeth
- Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod ef a'r Bwrdd, fel corff ac fel unigolion, yn dilyn saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan.
- Hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill.
- Sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys sicrhau eu bod nhw, ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd, yn derbyn hyfforddiant priodol.
- Gweithio gydag aelodau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol ac annog diwylliant o graffu a herio agored ac effeithiol.
- Asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.
- Mynychu adolygiad perfformiad blynyddol, a gynhelir gan Weinidogion Cymru
- Trwy weithio gyda'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, sicrhau bod y trefniadau llywodraethu priodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r arferion gorau a gofynion corff cyhoeddus.
- Goruchwylio gwaith y Prif Weithredwr, gan roi cymorth priodol yn ôl yr angen, gan gynnwys rheoli ei berfformiad.

- Cynrychioli'r corff yn allanol a meithrin cysylltiadau gwaith agos â rhanddeiliaid allweddol. Yn cynnwys cynrychioli barn y Bwrdd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Y Meini Prawf Hanfodol

Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

- Y gallu amlwg i annog diwylliant o herio a chraffu effeithiol a defnyddiol ar gyfer y Bwrdd
- Record ragorol o arweinyddiaeth, trawsnewid sefydliadol a datblygiad ar lefel bwrdd neu ar lefel gyfatebol. Yn gallu dangos y sgiliau i ddarparu arweinyddiaeth gydlynol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol; pennu amcanion; dal y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Profiad rhagorol o ymgysylltu, ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd staff a rhanddeiliaid, gan weithredu mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr staff.
- Mae angen sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i negodi, dwyn perswâd a dylanwadu, yn ogystal â herio a chraffu'n annibynnol ac, ar yr un pryd, cynnal perthynas adeiladol.
- Dealltwriaeth glir o strwythurau llywodraethiant o fewn sefydliad a'r gallu i sicrhau yr ymdrinnir yn ddoeth ac yn systemataidd â thrafodion ariannol y corff, y cânt eu harchwilio yn yr un modd a'u bod ar gael i'r cyhoedd, gan ddangos ymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn agored.
- Hanes blaenorol clir o ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac o weithredu ar eu sail. Dealltwriaeth amlwg o'r ymrwymiadau sydd ynghlwm wrth rôl gyhoeddus.
- Diddordeb amlwg mewn addysg a dealltwriaeth o'r system addysg yng Nghymru, gan gynnwys dealltwriaeth o anghenion a heriau'r dyfodol.
- Ymrwymiad i sicrhau bod Dysgu'n gyrru gwelliant ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ym maes addysg.

Y Meini Prawf Dymunol

- Dealltwriaeth o'r cyfyngiadau sydd ar y sector cyhoeddus.

Cymhwystra

Rydych yn gymwys i wneud cais os ydych yn gallu darparu tystiolaeth o'ch profiad yn erbyn pob un o'r meini prawf hanfodol a dymunol a, lle bo'n briodol, o gyfrifoldebau allweddol y Cadeirydd.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg ac yn ei ddatblygu ymhellach.

Sylwch, byddwch yn anghymwys i wneud cais os ydych:

- yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu wedi dod i gyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr
- yn destun gorchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
- yn Aelod o'r Senedd
- yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi
- yn aelod o Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon
- yn aelod o awdurdod lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub)
- yn gyflogedig yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth neu
- yn ddeiliad swydd mewn corff a nodir yn benodol gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, neu'n aelod o'r corff neu'n aelod o staff y corff.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth ymgeisio bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Georgina Haarhoff, Cyfarwyddwr Addysg a bydd hefyd yn cynnwys Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr – yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion, ac Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dewis i'w ystyried. Sylwch ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Hydref 2025 pwy fydd yn cael eu gwahodd am gyfweliad ym mis Tachwedd 2025. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau wyneb yn wyneb.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi os ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a’ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Dysgu - Cadeirydd

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os cewch eich penodi'n Gadeirydd, cewch eich gwahodd i wrandawiad gan un o Bwyllgorau Senedd Cymru.

Mae craffu cyn-penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus pwysicaf a wneir gan Weinidogion. Ei ddiben yw darparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a sicrhau bod y broses recriwtio yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith craffu hwn, gall y pwyllgor dethol perthnasol ofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ac adolygu'r wybodaeth honno. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn-penodi.

Cynhelir gwrandawiadau cyn-penodi yn gyhoeddus ac ynddynt mae'r pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawiadau cyhoeddus hyn cyn cadarnhau penodiad, ond ar ôl cynnal y broses ddethol.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn-penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw cynnal gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys penderfynu cynnal gwrandawiad cyn-penodi ai peidio. Ar ôl adolygu gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran ynghylch y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn-penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis ymgeisydd y Gweinidog.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os na fyddwch yn gyfan gwbl fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu pob cais mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn deg ac yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: Office of the Commissioner for Public Appointments, Ground Floor, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ, neu e-bostio publicappointments@csc.gov.uk